

## Cofion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Marian Jones (Tanyfron) a'r teulu i gyd yn dilyn marwolaeth ei chwaer yn ddiweddar. Gweddïwn eu bod oll yn adnabod tangnefedd a digon Duw y dyddiau hyn.
- Anfonwn ein cofion at y cleifion yn ein plith. Gweddïwn fod Elizabeth Jones (Groes) yn adnabod holl dangnefedd Duw yn gwarchod drosti a hithau yn Ysbyty Glan Clwyd ers rhai wythnosau erbyn hyn. Mae Glenys Jones (Llanefydd) wedi cael ei symud i Ysbyty Rhuthun ac mae Elizabeth Hughes (Llansannan) yn parhau i gael gofal yn Ysbyty Bae Colwyn, ond mae'n dda cael adrodd fod Hywel Wyn Davies (Cefn Berain) wedi dod adref o'r ysbyty erbyn hyn. Cyflwynwn hwy oll, ac eraill o'r Ofalaeth sydd heb fod yn dda eu hiechyd, i ofal tyner ein Duw.
- Yn yr un modd, parhawn i gofio am ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mrs Gwenfyl Jones (Yr Hen Ficerdy); a Mr Selwyn Davies, Mrs Menna Owen a Miss W. J. Roberts (Yr Hen Ddeondy). Cyflwynwn hwythau i ofal yr Arglwydd gan hyderu eu bod yn profi gofal a grym ein gweddïau drostynt.

## Arian Sasiwn y Chwiorydd

Gair i'ch atgoffa y bydd trysorydd eich eglwys yn falch o dderbyn unrhyw gyfraniadau tuag at gasgliad Sasiwn y Chwiorydd mor fuan â phosibl, os gwelwch yn dda. Cynhelir y Sasiwn yn Llandudno eleni ar ddydd Mawrth, Mai 12fed. **Nodyn i'r Trysoryddion:** A wnewch chi anfon yr arian i Mair (gydag unrhyw sic yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled') erbyn Ebrill 20fed, os gwelwch yn dda?

## I ddo

- **CYFARFOD CHWIORYDD HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** yn Ffestri Capel Mawr, Dinbych nos Fawrth, Ebrill 28fed. Y siaradwr gwadd fydd y Parch. Christopher Prew.
- **UNDEB ATHROFA'R BALA** – Cynhelir y Gynhadledd Flynyddol yn Seilo, Llandudno dydd Mawrth, Mai 5ed am 10.00. Y siaradwr fydd Ei Anrhydedd Eifion Roberts a'r Parch. John Gwilym Jones. Croeso i bawb.
- **SASIWN CHWIORYDD Y GOGLEDD** yn Llandudno dydd Mawrth, Mai 12fed. Mwy o fanylion i ddilyn.

## Darlleniad Wythnos Nesaf

Ioan 20:24-31 (BCND tud.127 / BCN: tud.116)

## Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.



# Llais Bro Aled

## Dydd Sul, 5<sup>ed</sup> Ebrill 2015

## Darlleniad y Dydd

Ioan 20:1-9

(BCND tud.126 / BCN: tud.115)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com) / [www.rhaglendorcas.com](http://www.rhaglendorcas.com) / [www.llanw.org](http://www.llanw.org) / [www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

Croeso i oedfaon Sul y Pasg! Dyma Wyl fwyaf yr Eglwys Gristnogol a braf fydd cael cyd-addoli gyda holl deulu'r ffydd ar draws y byd ac yn y nef wrth i ni ddatlu atgyfodiad Iesu a'i ddyrchafiad gogoneddus o farw'n fyw. Diolchwn i Dduw am rym yr atgyfodiad ac am fod yr Iesu'n fyw!

Yn hanes yr atgyfodiad a ddarllenwn heddiw, mae Mair Magdalen yn dod yn gynnar at y bedd. Mae Ioan yn dweud ei bod hi ar fin gwawrio, sy'n awgrymu'n gryf fod Mair wedi bod yn effro yn aros i'r Sabath basio er mwyn iddi gael mynd at gorff Iesu i'w lanhau a'i eneinio. Mae hi bron â thorri ei chalon eisiau gorffen y gwaith o ofalu amdano ac mae ei chyfeillion yr un mor awyddus i'w chynorthwyo. Ceisio Iesu o gariad y maen nhw – ceisio un yn gorwedd yn llonydd mewn bedd. Ond nid dyna a gawsant! Wedi cyrraedd y bedd mae nhw'n gweld fod y maen wedi ei symud oddi ar geg y bedd ac nad oedd golwg o'r corff marw yn unman. Bedd gwag oedd yno.

Mae Mair yn meddwl, yn ddigon naturiol, fod rhywun arall wedi cyrraedd o'i blaen, er ei bod hi yno mor gynnar ag oedd y gyfraith Iddewig yn ei ganiatáu. Efallai bod y milwyr neu'r garddwr wedi ei symud. Mae'n holi'r person cyntaf y mae'n ei weld, a chael – yn ei gyfarchiad syml – y sioc fwyaf erioed. Iesu oedd yma yn siarad hefo hi – Iesu byw! Ennaint ei lais yn iacháu ei hofnau a'i bresenoldeb hyfryd yn falm i'w chalon.

Ar unwaith, dyma waith y Deyrnas yn cychwyn trwy enau Mair – y gwaith o ddweud wrth eraill fod yr Iesu'n fyw! Yn ôl Efengyl Luc: “*Aeth Mair Magdalen, Joanna, Mair mam Iago, a nifer o wragedd eraill i ddweud yr hanes wrth yr apostolion.*” (Luc 24 :10). A dyma waith sydd wedi parhau yn ddi-dor dros yr holl ganrifoedd ac a fydd yn parhau heddiw trwy bedwar ban byd! Diolchwn i Dduw am y cyfle a gawn ninnau heddiw i ddweud yr hanes wrth ein gilydd ac i rannu'r newyddion syfrdanol yma hefo'n teuluoedd a'n cydnabod. Addoliad oedd ymateb cyntaf Mair, a dyma ddylai ein hymateb ninnau fod hefyd. Mae yma ryfeddod yn atgyfodiad Iesu sydd y tu hwnt i'n dirnadaeth ni, a syrthio mewn addoliad sy'n llawn ffydd a gobaith a chariad ydi'r ymateb dyfnaf a fedrwn ei roi i'r newyddion da!

Pob bendith i chi felly dros yr Wyl, a Phasg dedwydd i bob un ohonoch.

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

*Aneurin*

## Cyhoeddiadau

### **LLANW** – CAIFF YR HOLL OEDFAON EU CYNNAL YN NEUADD GOFFA CRICIETH (LL52 0HB)

- Llun – 6<sup>ed</sup>
- Oedfa yng nghwmni Rhys Llwyd (Gweinidog Eglwys Caersalem, Caernarfon ac sy'n un o olygyddion 'Cristion') am 7.00.
- Mawrth – 7<sup>fed</sup>
- Oedfa (1) gyda Rhodri Glyn yn pregethu am 10.00; grwpiau bach a seminar "Byw Bywyd Gweddi'gar" gydag Anna Huws, Ffald y Brenin am 12.00; pawns o hwyl i'r teulu; seminar "Tyfu'n Ddyn" gyda Ben Nuss am 4.00; ac oedfa yng nghwmni Steffan Morris (Arweinydd dan hyfforddiant yng nghylch y Bala) am 7.00.
- Mercher – 8<sup>fed</sup>
- Oedfa (2) gyda Rhodri Glyn yn pregethu am 10.00; grwpiau bach a seminar "Cipolwg ar Gyfoeth Etifeddiaeth Gristnogol Eifionydd" gyda'r Athro Wyn James am 12.00; taith gerdded neu nofio yn y pawns; seminar gyda'r Athro Wyn James am 4.00; oedfa yng nghwmni Ben Thomas (Gweinidog Eglwys Deuluol Cricieth) am 7.00.
- Iau – 9<sup>fed</sup>
- Oedfa (3) gyda Rhodri Glyn yn pregethu am 10.00; grwpiau bach a seminar "Caru ein cymydog: mynd â'r eglwys i'r gymuned" gyda Menna Machraeth a Mari Williams, Caernarfon am 12.00; cystadleuaeth adeiladu cestyll tywod yn y pawns; seminar "Te bach yn Tiffany's" gyda Sarah Morris am 4.00; swper (pawb i ddod a bwyd gyda nhw) am 6.00; ac oedfa yng nghwmni Emyr James (Cyd-weinidog yn Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd) am 7.00.

### **Y Fro**

- Sul yma – 5<sup>ed</sup>
- Oedfa'r Fro:** Byddwn yn ymuno mewn oedfa arbennig i ddathlu'r Pasg yn Llanefydd am 6.00 dan ofal yr ieuentid ac yng nghwmni Rhodri a Huw Tan y Graig.
- Sul nesaf – 12<sup>fed</sup>
- Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones, a bydd Rhodri yn pregethu.

### **Henllan a Groes**

- Sul yma – 5<sup>ed</sup>
- Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.
- Sul nesaf – 12<sup>fed</sup>
- Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Yn ystod oedfa'r bore, bydd dau aelod o'r Henaduriaeth yn dod i gynnal pleidlais er mwyn ethol blaenoriaid newydd. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

## Cyhoeddiadau

### **Llanfair a Chefn Meiriadog**

- Sul yma – 5<sup>ed</sup>
- Bydd aelodau Cefn Meiriadog yn cynnal Gwasanaeth y Pasg yn Yr Hen Ddeondy am 10.30. Croeso i bawb. Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00 a chynhelir Ysgol Sul yno am 11.00.
- Sul nesaf – 12<sup>fed</sup>
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

### **Llansannan**

- Sul yma – 5<sup>ed</sup>
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Sul nesaf – 12<sup>fed</sup>
- Bydd y Parch. R. W. Jones yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

### **Tanyfron a Nantglyn**

- Sul yma – 5<sup>ed</sup>
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf – 12<sup>fed</sup>
- Bydd y Parch. R. W. Jones yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

### **Saron a Pheniel**

- Sul yma – 5<sup>ed</sup>
- Bydd y Parch. Eric Greene yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00 ond ni fydd Ysgol Sul yn Saron.
- Sul nesaf – 12<sup>fed</sup>
- Bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

### **Llanefydd a Chefn Berain**

- Sul yma – 5<sup>ed</sup>
- Bydd Gwasanaeth y Pasg yng Nghefn Berain am 10.00 yng nghwmni'r plant. Yn Llanefydd, bydd Gwasanaeth Teuluol y Pasg dan ofal yr Ysgol Sul ac yng nghwmni Aneurin am 10.00, ac oedfa arbennig dan ofal yr ieuentid hefo Rhodri a Huw Tan y Graig am 6.00.
- Sul nesaf – 12<sup>fed</sup>
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

### **Dalier Sylw**

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos erbyn 9.00 nos Fercher i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i  
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102